Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dadansoddiad a Gorolwg dros Ddiwydiant Diodydd Cymru

Mawrth 2017



# Cynnwys

03 Gorolwg

06 Gorolwg dros Fragu ac Eplesu: Cynhyrchu, Adwerthu a Thueddiadau'r Defnyddiwr

07 Bragu ac Eplesu – Dadansoddiad SWOT

08 Gorolwg dros Wneud Gwin: Cynhyrchu, Adwerthu a Theueddiadau'r Defnyddiwr

09 Gwneud gwin – Dadansoddiad SWOT

10 Gorolwg dros Ddŵr a Diodydd Meddal: Cynhyrchu, Adwerthu a Thueddiadau'r Defnyddiwr

11 Dŵr – Dadansoddiad SWOT

12 Diodydd Meddal – Dadansoddiad SWOT

13 Gorolwg dros Ddistyllu: Cynhyrchu, Adwerthu a Thueddiadau'r Defnyddiwr

14 Gwirodydd – Dadansoddiad SWOT

15 Perfformiad y Farchnad Ddiodydd

25 Astudiaeth Achos Bragu
Bragdy Mŵs Piws

26 Astudiaeth Achos Gwinllannoedd
Gwinllan White Castle

27 Astudiaeth Achos Distyllu
Distyllfa Dyfi

28 Astudiaeth Achos Seidr a Pherai
Hallets Real Cider

29 Astudiaeth Achos Dŵr Mwynol a Ffynnon
Montgomery Waters

30 Astudiaeth Achos Diodydd Meddal
Radnor Hills Food and Drink Wales

Brookdale Consulting

7 Brookdale Road
Bramhall, Cheshire
SK7 2NW
www.brookdaleconsulting.co.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG32017 ISBN digidol 978-1-4734-9881-5

# Gorolwg dros yr Is-sector Diodydd

Mae'r adroddiad byr hwn yn rhoi cipolwg a manylion am yr is-sector diodydd yng Nghymru, o gynhyrchu sylfaenol trwy brosesu i ddosbarthu ac adwerthu. Yn benodol, mae'r adroddiad yn adolygu'r cwmniau yn yr is-sector, y rhoi ystadegau cyflogaeth a gweithgaredd busnes manwl gan yr ONS a FSA, tueddiadau'r defnyddiwr trwy adolygu data Kantar a ffynonellau a gwaith ymgynghori arall gan y diwydiant. Yn olaf, mae'r adroddiad yn cynnig cip ar weithgaredd a chyfleoedd busnes trwy amrywiaeth o astudiaethau achos.

Mae'r is-sector yn cynnwys y gweithgareddau canlynol, yn nhrefn nifer y cwmniau:

- Bragu ac eplesu
- Gwinllannoedd
- Dŵr a diodydd meddal
- Distyllu.

The figures from the latest economic appraisal for the Drinks sub sector are as follows:

## Crynodeb o'r Sector

Mae'r is-sector diodydd yng Nghymru:

- yn cynnwys cwrw, seidr, chwisgi, dŵr a diodydd meddal;
- y ddau is-sector mwyaf yw bragu a dŵr a diodydd meddal, sy'n cyfrif am 97% o gyflogaeth diodydd;
- cyflogi 1,200 o bobl (2015) i lawr o 1,900 yn 2014. Mae'r gostyngiad yn sgil y prif fragwyr yn rhoi'r gwaith ar gontract allanol a chymryd drosodd dau o brif gwmniau diodydd meddal Cymru – caewyd un safle ac mae gwaith yn y llall wedi'i gofrestru yn y Pencadlys, y tu allan i Gymru;
- mewn 90 uned busnes (2016) i fyny o 85 yn 2015 er bod y diwydiant yn amcangyfrif 200 sy'n dangos twf aruthrol mewn cwmnïau bach;
- gyda throsiant o £809m (2014) i fyny o £596 (2013);
- a gwerth adwerthu Cymru o £956m (2016);
- GYC o £373m (2014) i fyny o £285m (2013) ac
- Allforion o £71.6m (2016) i fyny o £61.8m (2015) America, Ffrainc, India, Yr Almaen, a'r Iseldiroedd yw'r 5 prif gyrchfan (2016).

## Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 4.9% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru;
- 15.9% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru.


## Treth y Diwydiant Diodydd Meddal (Treth Siwgr)

Mae Treth y Diwydiant Diodydd Meddal i ddod i rym yn Ebrill 2018. Bydd yn cael ei dalu gan gynhyrchwyr a mewnforwyr diodydd meddal sydd â mwy na 5g o siwgr i bob 100ml o hylif, gyda chyfradd uwch i rai sydd â dros 8g. Bydd sudd ffrwythau pur heb siwgr wedi'i ychwanegu a diodydd llaeth wedi'u heithrio. Y cyfraddau a gynigir yw:

- 18p i bob litr ar gyfer diodydd meddal sydd â 5-8g o siwgr i bob 100ml;
- 24p i bob litr ar gyfer diodydd meddal sydd â dros 8g o siwgr i bob 100ml.

Diben y dreth yw gwella iechyd trwy annog cynhyrchwyr i newid eu cynnyrch, a lleihau'r siwgr mewn diodydd meddal; ac i ddefnyddwyr ddewis cynnyrch sydd â llai o siwgr. Mae dadansoddiad gan Oxford Economics yn amcangyfrif y bydd y dreth yn effeithio ar 21% o gyfanswm gwerthiant diodydd meddal (yn ôl cyfaint) gyda'r effaith fwyaf ar ddiod egni.

Ffigwr 1.1 Cyfaint Gwerthiant Trethadwy yn ôl Categori Diodydd




## Tueddiadau[1]

Mae diwydiant diodydd Cymru wedi gweld cyfnod o dwf cryf. Serch hynny, mae'r sector wedi colli bron i 700 swydd yn ddiweddar, tua 40% o swyddi'r sector. Roedd bron i hanner y colledion ym maes bragu (sy'n cael ei esbonio uchod) a thraean o fewn dŵr a diodydd meddal (sydd hefyd yn cael ei esbonio uchod).

Yn yr un cyfnod, cafwyd gostyngiad mewn cyflogaeth yn yr Alban, gan golli 900 swydd, sef tua 8% o swyddi'r sector. Yn Lloegr, cafwyd cynnydd o 4%.

Mae cyflogaeth y sector yng Nghymru yn debyg i Loegr, gyda 50% yn cael eu cyflogi yn cynhyrchu cwrw. Ond mae dŵr a diodydd meddal yn bwysicach yng Nghymru. Mae 47% o swyddi sector ddiodydd Cymru ym maes dŵr a diodydd meddal, o'i gymharu â 32% yn Lloegr. Mae distyllu yn dominyddu cyflogaeth yn yr Alban, gan gyfrif am 72% o swyddi'r sector diodydd.

Er gwaethaf gostyngiad sylweddol mewn cyflogaeth, mae cyfanswm busnesau Cymru wedi parhau i dyfu. Yn ôl ystadegau swyddogol y llywodraeth, ers 2011, mae'r data swyddogol yn dangos cynnydd o 45 o fusnesau cynhyrchu diodydd i 85 yn 2016[2]. Mae'r data swyddogol yn cael ei drafod isod.

1 Nodyn: Mae'r asesiad uchod wedi adolygu Data Swyddogol gan Ddosbarthiadau Safonol y Diwydiant (Standard Industrial Classification) ar gyfer Cynhyrchu Diodydd (SIC 11.0). Os oes busnes â'i brif gofrestriad o fewn cod SIC arall (e.e. SIC 56.0 Tafarndai), ni fydd eu gwybodaeth wedi'i gofnodi yn yr asesiad hwn. Mae amrywiaeth y gweithgareddau gan fusnesau mewn ystod o godau SIC yn rhannol esbonio gwahaniaeth rhwng data swyddogol a data cyrff y diwydiant. Mae hyn yn cael ei ddatrys yn yr adroddiad.
2 Nodyn: Dangosodd data Unedau Busnes gynnydd o 50 yn 2011 i 90 yn 2016. Mae hyn yn fwy na nifer y mentrau gan fod rhai busnesau yn gweithredu o fwy nag un safle.

## Cwrw

Mae cyfanswm y bragwyr wedi cynyddu o 25 i 60 yn y cyfnod, gyda'r ffigyrrau diweddaraf yn cynnwys 5 partneriaeth fach, 5 busnes unig berchennog a 50 cwmni. O'r 50 cwmni cynhyrchu cwrw, roedd 45 yn rhai micro (cyflogi llai na 9). Mae rhwng 5 a 7 menter fragu fwy, sy'n cyflogi dros 9 o bobl.




## Dŵr a Diodydd Meddal

Mae nifer y mentrau dŵr a diodydd meddal wedi parhau'n weddol gyson ar 10-15 menter rhwng 2011 a 2016. O'r rhain, mae 5 yn rhai micro (0-9 gweithiwr), 5 yn fach (10-49 gweithiwr) a 5 yn fentrau canolig (50-249 gweithiwr). Mae'r holl fusnesau dŵr a diodydd meddal yn cael eu hystyried yn gwmnïau.

## Distyllu

Mae 5 menter yn distyllu, coethi a blendio gwirodydd, gyda phob un yn gwmnïau micro.

## Eraill (seidr, gwin)

Mae'r data swyddogol yn cael ei rowndio i'r 5 agosaf, gyda busnesau yn cael eu cofnodi o dan brif weithgaredd y busnes. Nid oedd mentrau wedi'u cofnodi yn y data swyddogol. Ond, mae gweithgaredd Cymreig yn y sector yn cael ei ystyried yn y bennod nesaf.



# Gorolwg dros Fragu ac Eplesu: Cynhyrchu, Adwerthu a Thueddiadau'r Defnyddiwr

## Bragu ac Eplesu (cwrw, lager, seidr a pherai)[3]

- Mae gan Brydain dros 1,120 menter fragu sy'n cyflogi 14,400.
- Mae gan Gymru 60 menter yn cyflogi 600 ac yn cyfrif am 5.4% o fragdai Prydain a 4% o'u cyflogaeth.
- Mae gwerthiant cwrw'n weddol gyson, ac yn gostwng yn y tymor hir ar 27,000 casgen (C4 2016). Mae nifer y tafarndai yn gostwng ar ychydig dros 50,000. Mae twf sylweddol yn y sector cwrw crefft.
- Mae Diodydd Cymru yn cynrychioli'r sector diod alcoholig yng Nghymru.
- Mae'r Society of Independent Brewers (SIBA) yn cynrychioli 42 bragdy yng Nghymru.
- Mae'r Independent Family Brewers of Britain yn cynrychioli un bragdy yng Nghymru.
- Mae 63 bragdy arall yn gweithredu yng Nghymru, gyda'r mwyafrif yn fach iawn, a ddim mewn data swyddogol.
- Mae Cymdeithas Perai a Seidr Cymru yn cynrychioli cynhyrchwyr seidr a pherai fel rhan o'r National Association of Cider Makers.
- Mae dros 500 o gynhyrchwyr seidr yn y DG, sef y farchnad seidr fwyaf yn y byd.
- Mae data swyddogol yn dangos fod gan Brydain 70 menter seidr yn cyflogi 2,000. Mae'r sector Gymreig yn cyfrif am lai nag 1% o nifer Prydain.
- Mae Prydain wedi gweld twf tymor hir mewn yfed seidr i frig yn 2011 ond wedi gostwng ers hynny i 7.5m hectolitr.
- Mae gan Gymdeithas Perai a Seidr Cymru 19 aelod seidr a pherai masnachol (dros 500l) ac 19 aelod hobi. Mae 9 cynhyrchwr seidr a pherai wedi'u hadnabod i wneud cyfanswm o 47, er bod y mwyafrif yn fach iawn.

## Darlun Adwerthu

- Mae cwrw a lager yn cyfrif am 18% o werthiant alcohol Cymru – gwerth £125m yn 2016. Roedd gwerthiant cwrw a lager 1% yn uwch mewn cyfaint a gwerth ym Mhrydain, ond roedd gwerthiant 6% yn is yng Nghymru.
- Mae seidr yn cyfrif am 9% o werthiant alcohol Cymru – gwerth £61m yn 2016. Roedd gwerthiant seidr 1% yn uwch ym Mhrydain, a gwerthiant Cymru 17.5% yn uwch.
- Mae 'allan o'r cartref' yn farchnad allweddol, gan gyfrif am 57% o wariant mewn safleoedd trwyddedig (2014). Mae tafarndai sy'n canolbwyntio ar yfed dan bwysai. Mae'r Arolwg Bwyd Teuluoedd yn dangos fod lefelau yfed yn y cartref wedi parhau'n gyson ers 2001, ond bod yfed allan o'r cartref wedi haneru.
- Mae gwerthiant cwrw mewn tafarndai ac ati yn y DG bron a haneru ers 2000, gan ostwng o 23.4m casgen i 12.9m casgen erbyn 2016[4].
- Mae gwerthiant ym maes adwerthu wedi cynyddu o 11.2m casgen yn 2000 i 13.7m casgen erbyn 2016. Dros y ddegawd ddiwethaf, mae gwerthiant adwerthu wedi dod yn fwy na gwerthiant mewn tafarndai ac ati[5].
- Mae bragdai mawr dan bwysau o ran pris, sy'n cael ei waethygu gan gostau uwch yn sgil y bunt wan. Caiff cwrw ei hyrwyddo'n eang, ac mae enwau mawr yn cael eu tynnu oddi ar silffoedd adwerthwyr.

## Tueddiadau allweddol y defnyddwyr

- Dewis cynnyrch premiwm: galw cryf am gwrw'r byd.
- Cwrw a seidr crefft: twf cryf mewn cwrw a seidr crefft.
- Iechyd: cynnyrch heb elfennau penodol, caloriau a lefel alcohol.
- Arloesi: Pecynnu a blas.

3 Mae'r data mentrau swyddogol ar gyfer 2016 a data cyflogaeth ar gyfer 2015.
4 Data BBPA
5 Data BBPA

# Bragu ac Eplesu – Dadansoddiad SWOT

## Cryfderau

- Hunaniaeth a tharddiad Cymreig yn ddiddrdeb cynyddol mewn cynnyrch 'crefft'.
- Dŵr Cymru o ansawdd da.
- Nifer o frandiau cyfoes bywiog.
- Amrywiaeth ac arloesi mewn prosesau bragu a datblygu cynnyrch.
- Mentrau o gefndiroedd gwahanol yn dod â sgiliau amrywiol.
- Hyfforddiant ar gael – mae Brewlab ym Mhrifysgol Sunderland yn brif ddarparwr cyrsiau byr.
- Traddodiad seidr hir e.e. fel tâl i weithwyr fferm.
- Prif fragwr rhanbarthol – gydag enw da yn genedlaethol.
- Cyd-fynd â phrosiect Beacon, gyda chyfle i ddefnyddio gwastraff bragu i fwydo planhigion.

## Gwendidau

- Pellter o'r farchnad yn golygu costau dosbarthu uchel.
- Anodd cymhwyso.
- Prinder graddedigion gwyddoniaeth a thechnoleg bwyd.
- Cystadleuaeth ar y ffin – anodd gwerthu cwrw ychydig dros y ffin, ond yn haws yn bellach i ffwrdd.
- Dim cadwyn fawr yn buddsoddi yn nhafarndai yfed Cymru, sy'n llwybr pwysig i'r farchnad i gwrw.
- Dim tystiolaeth o uchelgais buddsoddi y tu allan i Gymru – mae bragwyr rhanbarthol fel St Austell, Greene King a Brewdog wedi tyfu'n dda allan o'u rhanbarthau.

## Cyfleoedd

- Mae cwrw a seidr lleol yn tyfu.
- Chwyldro bragu crefft – mae crefft, tarddiad, cynhwysion arbennig, blas a chymeriad yn tyfu.
- Mae pobl yn meddwl mwy am ddiod ac yn chwilio am well ansawdd, sy'n ffafrio bragwyr crefft.
- Mae masnach gwestai, bwytai a chaffis yn tyfu.
- Mae siopao coffi yn gynyddol werthu alcohol.
- Gall cwmniau mawr brynu bragwyr bach llwyddiannus.
- Twf mewn allforio e.e. Iwerddon, Sgandinafia, Canada.

## Bygythiadau

- Trethi a bygythiad o gynnydd mewn tollau. Newidiadau i'r drefn trwyddedau defnydd dŵr.
- Bar tollau 7,000l ar gyfer seidr – dim tollau islaw'r trothwy, ac yna toll ar yr holl gynnyrch dros y trothwy (39c y litr = £2,700). Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd cynyddu cynhyrchiant a thyfu'r busnes.
- Gall adolygiad gostyngiad treth bragwyr bach fygwth cwmniau cwrw crefft.
- Bragwyr mawr yn colli rhan o'r farchnad i fragwyr crefft.
- Bragwyr mawr yn sefydlu timau arbenigol i werthu cynnyrch crefft, gan roi'r argraff eu bod yn fach a lleol ond mewn gwirionedd yn gweithio i'r prif gwmniau aml-genedlaethol.
- Bragwyr canolig yn cael eu gwasgu o'r ddwy ochr (bragwyr aml-genedlaethol a bragwyr crefft).
- Bragwyr aml-genedlaethol mawr yn cynnig disgownt ar gyfaint mawr.
- Newid arferion yfed gyda phobl yn cymdeithasu llai ac yn yfed llai.
- Tafarndai yn dioddef.
- Symud at ddirwest e.e. lobi iechyd.

# Gorolwg dros Wneud Gwin: Cynhyrchu, Adwerthu a Thueddiadau'r Defnyddiwr

## Gwneud Gwin

- Mae gan Brydain tua 700 gwinllan, 130 o windai a 1,956ha o winwydd yn cynhyrchu 5.06m potel yn 2015.
- Mae'r data swyddogol yn cofnodi 30 menter win ym Mhrydain sy'n cyflogi llai na 200. Mae mwyafrif y gwinllannoedd wedi'u rhestru yn yr ystadegau garddwriaeth yn hytrach na'r ystadegau busnes.
- Mae 19 gwinllan yng Nghymru yn cyfrif am 34.7 ha – 1.8% o gyfanswm y DG.
- Mae arwynebedd gwinwydd Cymru ar gynnydd, gydag 8ha yn cael eu plannu y llynedd a 4-5ha arall yn yr arfaeth ar gyfer 2017 gan gynyddu'r arwynebedd i 48ha erbyn diwedd 2017.
- Dim ond un gwindy bach sydd yng Nghymru, sydd wedi'i gyfyngu i win biodynamig.
- Mae mwyafrif gwin Cymru'n cael ei wasgu a'i botelu yn Lloegr – ar gost o £2.60-£2.70 y botel.
- Mae mwyafrif gwin Cymru wedi'i anelu at y farchnad bremiwm, gyda chyfartaledd pris y botel yn £15 a'r mwyafrif yn cael ei werthu o'r winllan.
- Rydym yn amcangyfrif fod trosiant cynhyrchu gwin yng Nghymru'n £1.7m. Nid yw hyn yn cynnwys incwm o deithiau, blasu, gwerthu bwyd a llety, sy'n sylweddol.
- Amcangyfrifir fod cyfanswm y swyddi uniongyrchol, yn cynnwys yr holl weithgareddau, rhwng 40-100 o bobl.
- Mae'r UK Vineyards Association (UKVA) yn cynrychioli gwinllannoedd y DG a'r Welsh Vineyards Association yn cynrychioli rhai Cymru.

## Darlun Adwerthu

- Roedd gwin yn cyfrif am 42% o werthiant alcohol Cymru – gwerth £297.8m yn y flwyddyn hyd at Fedi 2016.
- Roedd gwin yn cyfrif am 28% o wariant mewn safleoedd trwyddedig yn 2014.
- Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys gwerthiant uniongyrchol o winllannoedd.

## Tueddiadau allweddol y defnyddwyr

- Mae twf sylweddol mewn gwin pefriog, i fyny 20% mewn gwerth y flwyddyn i £39m.
- Mae hyn yn cyd-fynd â thuedd ehangach Prydain, lle mae gwerthiant gwin pefriog wedi cynyddu 14.5% i £778.6m.
- Mae'r farchnad yn cael ei gyrru gan alw cryf gan y defnyddiwr am Prosecco o'r Eidal.



# Gwneud Gwin – Dadansoddiad SWOT

## Cryfderau

- Hunaniaeth a tharddiad Cymreig.
- Gwin o ansawdd da.
- Cael ei weld yn unigryw a gwahanol.
- Cyswllt cryf â thwristiaeth, felly mae gan winllannoedd nifer o ffrydiau incwm (gwin, teithiau, blasu, bwyd, llety) – Llwybr Gwin Cymru.
- Teyrngarwch brand cryf, yn enwedig yn lleol.

## Gwendidau

- Cyfaint isel, tua 100,000 potel y flwyddyn.
- Y cynnyrch ddim yn gyson o flwyddyn i flwyddyn yn sgil y tywydd ac amodau cynaeafu.
- Dim gwindy masnachol yng Nghymru (mae gan Ancre Hills un Biodynamig at ei ddefnydd ei hun yn unig).
- Cost uchel i gynhyrchu gwin yn Lloegr (£2.60-£2.70 y botel am wasgu a photelu).
- Angen mwy o ddysg mewn hwsmonaeth a gwneud gwin.
- Dim cyfleuster hyfforddi yng Nghymru – Coleg Plumpton yn Lloegr yw'r agosaf.
- Nid yw Cyswllt Ffermio'n ariannu cyrsiau hyfforddi yn Lloegr, ac nid oes digon am hyfforddi i gynnal cyrsiau yng Nghymru.
- Llais bychan sydd gan gynhyrchwyr Cymru (tua 20) yn yr UK Vineyards Association o dros 500.
- Diffyg strategaeth fusnes a marchnata.

## Cyfleoedd

- Sefydlu gwindy yng Nghymru sydd ar gael i bob tyfwr.
- Sefydlu gwin Cymru ymhellach fel cynnyrch premiwm.
- Bwytai, siopau a delis yn chwilio am gynnyrch lleol.
- Gwin yn cefnogi Cymru fel cyrchfan bwyd a diod.
- Diwydiant sy'n tyfu, gan ddisgwyl dyblu arwynebedd a chynhyrchiant erbyn 2020.
- Marchnadoedd allforio, ond cyfaint yn cyfyngu. Dim ond un winllan sy'n allforio ar hyn o bryd.
- Mwy o arloesi wrth farchnata a hyrwyddo.
- Datblygu rhagor o atyniadau i dwristiaid o amgylch gwin/gwinllannoedd. Mae'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth am gynorthwyo mentrau arloesol o safon uchel yng Nghymru.

## Bygythiadau

- Hinsawdd – tywydd gwael fel glaw a rhew yn bygwth cnydau.
- Bydd methu cynhyrchu o safon yn golygu dychwelyd at hen ragdybiaethau.
- Dilyn amcanion ariannol – 'llenwi poteli' dros ansawdd gwin.
- Gall diffyg gwybodaeth am hwsmonaeth niweidio cnydau a gwin.
- Angen cyllideb farchnata i hyrwyddo gwin Cymru.
- Cau gwinllannoedd oherwydd cost ac amgylchiadau perchnogion (iechyd, oed, llwyth gwaith, cyllid).

# Gorolwg dros Ddŵr a Diodydd Meddal: Cynhyrchu, Adwerthu a Thueddiadau'r Defnyddiwr

## Dŵr a Diodydd Meddal

- Mae gan Brydain 265 menter dŵr a diodydd meddal yn cyflogi 9,980.
- Mae gan Gymru 19 menter, gydag 12 yn fentrau dŵr, gan gyflogi cyfanswm o 560.
- Mae cyflogaeth Cymru'n cyfrif am 5.7% o gyflogaeth yr is-sector ym Mhrydain.
- Mae'r sector yn cael ei chynrychioli gan y British Soft Drink Association a'r Natural Hydration Council.



## Darlun Adwerthu

- Roedd gwerthiant adwerthu diodydd meddal Cymru yn £198m, 5.5% yn is mewn gwerth, a 4.3% mewn cyfaint.
- Roedd diod ffrwythau a diodydd meddal pefriog i lawr 10.4% ac 8%.
- Mae dŵr mwynol yn cyfrif am 13% o werthiant adwerthu diodydd meddal.
- Mae dŵr potel yn tyfu'n gryf, gyda gwerthiant 10% yn uwch dros y flwyddyn ddiwethaf i £25.7m, a chyfaint 11% yn uwch.

## Tueddiadau allweddol y defnyddwyr

- Mae'r symudiad oddi wrth siwgr yn cael effaith sylweddol ar y farchnad.
- Iechyd – mae defnyddwyr yn symud oddi wrth ddiodydd llawn siwgr tuag at ddŵr.
- Mae arloesi'n arwain twf mewn dŵr ag ychwanegiadau (e.e. caffein) a dŵr â blas. Mae hyn yn gwneud y llinellau rhwng dŵr a diodydd meddal yn aneglur.
- Mae symudiad oddi wrth siwgr a melysyddion artiffisial yn effeithio ar yr ystod 'pop arferol'.
- Mae'r farchnad ddiodydd meddal i oedolion yn tyfu'n gryf, yn cael ei yrru gan gynnydd mewn cymdeithasu, yfed wrth fynd a gostyngiad mewn yfed alcohol.
- Mae diodydd cymysgu premiwm yn tyfu'n gryf, gan gyd-fynd â'r twf mewn gwirodydd crefft.
- Mae diodydd egni/chwaraeon yn parhau i wrthsefyll y symudiad oddi wrth siwgr.
- Mae twf dŵr mwynol yn y farchnad yn cael ei yrru gan bobl yn prynu mwy o ddŵr yn amlach.
- Mae treiddiad dŵr mwynol yn y DG yn parhau yn is na chyfandir Ewrop a'r UDA.

# Dŵr – Dadansoddiad SWOT

## Cryfderau

- Hunaniaeth a tharddiad Cymreig. Dŵr o ansawdd da a llawer o law. Ffynhonnell ddŵr sodiwm isel.
- Cwmnïau bach yn allforio'n dda, gydag enw da.
- Cwmnïau â buddsoddiad da.
- Galw cryf a chynyddol gan ddefnyddwyr am ddŵr – twf o 8% y flwyddyn yn y DG.
- Arloesi mewn datblygu cynnyrch, e.e. dŵr â blas.
- Cwmnïau Cymru yn llwyddiannus yn y marchnadoedd adwerthu, allforio a gwasanaeth bwyd.
- Yn hanesyddol, wedi'u heithrio o drwyddedau defnyddio dŵr, mae cwmnïau wedi gallu ehangu yn ôl y galw.
- Dŵr yw'r ddiod ar y silff sy'n cael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd.

## Gwendidau

- Nifer fach o fusnesau, yn cyflenwi cyfran fach o farchnad Prydain.
- Rhwystrau i gychwyn – dod o hyd i gyflenwad addas, cael trwydded, costau cyfalaf offer drud.
- Ni all busnesau symud yn hawdd, ac felly ddim yn hyblyg i faterion yn ymwneud â newidiadau i'r gweithlu, safle, logisteg, hinsawdd a thynnu dŵr. Cystadleuaeth gynyddol am ddŵr.
- Rhaid i rai cwmnïau fuddsoddi i fod yn gystadleuol o ran cost.
- Gall dosbarthu fod yn ddrud yng Nghymru.
- Diffyg grid trydan mewn nifer o ardaloedd gwledig.

## Cyfleoedd

- Twf parhaus mewn galw yn helpu i gryfhau hyfywedd y sector – lefelau'r DG yn dal yn is na'r UE a'r UDA.
- Cyd-weithio a datblygu diodydd eraill, lle mae ansawdd y dŵr yn bwysig, e.e. marchnad diodydd meddal premiwm i oedolion.
- Ynni adnewyddol.

## Bygythiadau

- Ansicrwydd am newid rheolau tynnu dŵr, yn effeithio ar benderfyniadau buddsoddi, gallu i gwrdd ag archebion newydd a chyfyngiad posibl ar dynnu yn y dyfodol. All CNC gwrdd ag amserlen gwneud penderfyniadau busnes?
- Cystadleuaeth cost gyda'r 5 cwmni mawr.
- Ansicrwydd allforio yn sgil Brexit, sy'n hynod bwysig i rai o fusnesau Cymru.
- Rhestr dyfroedd mwynol cydnabyddedig yn cael ei dan gan yr UE, gallai Brexit ei gwneud yn anoddach i fusnesau Cymru gael eu cydnabod ac i fasnachu.
- Mae rhanbarthau'r DG yn gweithredu yn ôl gwahanol haenau o reoliadau'r UE, gyda Chymru wedi mabwysiadau'r diweddaraf. Beth yw goblygiadau i gyflenwad tair haen y DG ar ôl Brexit.
- Mae galw gan ddefnyddwyr am ddiodydd 'iachach' yn gwneud y llinell rhwng dŵr a diodydd meddal eraill yn aneglur, sy'n arwain at fwy o gystadleuaeth a symud y ffocws oddi wrth gyflenwi dŵr.
- Mae dŵr potel yn cael ei ystyried yn wastraff amgylcheddol, gyda'r tap i gymryd ei le (e.e. mae Maer Llundain am gynnig dŵr tap yn unig mewn cyfarfodydd).

# Diodydd Meddal – Dadansoddiad SWOT

## Cryfderau

- Pecynnwr cytundebau mawr (Prince's Gate).
- Mae Radnor Hills yn arwain y farchnad ar ddiodydd meddal addas i ysgolion.
- Mae nifer o fusnesau a ffocws cryf ar allforio (Radnor Hills, Prince's Gate a Calypso).
- Cwmnïau sydd â buddsoddiad da.

## Gwendidau

- Galw am ddiodydd meddal yn lleihau'n gyflym, yn enwedig pop arferol, sudd ffrwythau a chynnyrch i blant.
- Diffyg grid trydan mewn nifer o ardaloedd gwledig.

## Cyfleoedd

- Mae'r galw am ddiodydd meddal crefft premiwm i oedolion ar gynnydd.
- Mae'r galw am ddiodydd cymysgu premiwm, i gyd-fynd â gwirodydd premiwm, ar gynnydd.
- Mae'r farchnad wrth fynd ar gynnydd.
- Mae'r farchnad bwyta allan ar gynnydd, a chynnydd yn y boblogaeth sy'n chwilio am ddiodydd di-alcohol.
- Cyfle i gwmniau newydd – yn enwedig yn y sector cyhoeddus (ysbytai, ysgolion ac ati) lle mae busnesau mawr wedi tynnu allan.
- Mae mynd i mewn i'r farchnad yn gymharol hawdd (trwy becynwyr cytundeb) ond mae tyfu ac ennill cytundebau yn anodd iawn.

## Bygythiadau

- Bydd ansicrwydd Brexit yn cael effaith: labelu, safonau cynhyrchu, ail-ffurfio, a chynnyrch a ganiateir.
- Treth siwgr (Ebrill 2018). Mae trothwy cynhyrchwyr bach wedi'i ostwng i 1 miliwn litr y flwyddyn parod i'w yfed, fydd yn ei wneud yn barthnasol i fwyafrif y cynhyrchwyr. Tebygol o effeithio ar gynhyrchwyr traddodiadol/crefft sy'n canolbwyntio ar gynnyrch naturiol ond gyda lefelau siwgr uwch.
- Galw gan ddefnyddwyr yn parhau i ostwng.
- Punt wan yn cynyddu costau (cynhwysion, pecynnu).
- Safleoedd Cymru'n dibynnu ar hynt busnesau aml-genedlaethol mawr, sy'n cael amser called gyda chostau uwch a galw is – mae AG Barr wedi cau safle Rubicon. Mae tri phrif safle arall yng Nghymru yn eiddo i gwmnïau mawr Princes, Cott a Highland Spring (dŵr blas).
- Pwysau amgylcheddol – yn enwedig yn ymwneud â phlastig. Bydd atebion posibl, e.e. cynllun blaendal, yn anoddach i gwmnïau bach ei weithredu.
- Gall cyfyngiadau pellach ar hysbysebu/marchnata/brandio gael effaith ar ymrwymiad y gymuned fusnes.
- Penderfyniadau datganoledig (e.e. Iechyd Cyhoeddus, Bwyd Ysgolion, Amgylchedd) gwahanol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn anodd i fusnesau weithredu ledled y DG.
- Gall newidiadau i Safonau Bwyd Ysgolion gael effaith fawr – yn enwedig os yn wahanol ledled y DG.
- Gallai agwedd gyhoeddus negyddol at felysyddion effeithio'n fawr ar y sector, a chyhoeddusrwydd yn niweidiol.

# Gorolwg dros Ddistyllu: Cynhyrchu, Adwerthu a Thueddiadau'r Defnyddiwr

## Distyllu

- Mae gan Brydain 265 menter sy'n cyflogi 9,500.
- Mae gan Gymru 5 menter sy'n cyflogi llai na 30 ac yn cyfrif am lai na 2% o ddistyllwyr Prydain a llai nag 1% o'r gyflogaeth.
- Mae'r sector yn cael ei chynrychioli gan Ddiodydd Cymru.



## Darlun Adwerthu

- Gwerthiant adwerthu o £206m, yn cyfrif am 30% o wariant adwerthu Cymru ar alcohol, 8% yn is na'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd gwerthiant Prydain yn cynyddu (+1.5%).
- Fel cyfran o gyfanswm gwariant adwerthu, mae gwirodydd yn cyfrif am fwy o wariant Cymru (30% o'i gymharu â 28% ym Mhrydain).

## Tueddiadau allweddol y defnyddwyr

- Twf cryf mewn gwirodydd crefft, yn cael ei yrru gan Genhedlaeth y Mileniwm – gyda chwisgi a gin newydd ar y farchnad.
- Yn rhyngwladol, mae twf cryf i wirodydd â blas, ond mae hyn yn cyfrif am gyfran fach o farchnad Prydain.
- Cynnydd yn y galw am wirodydd alcohol isel (e.e. Aperol), coctêl alcohol isel a lansio gwirod di-alcohol Seedlip.

# Gwirodydd – Dadansoddiad SWOT

## Cryfderau

- Hunaniaeth a tharddiad Cymreig.
- Dŵr o ansawdd da.
- Galw cenedlaethol cynyddol.
- Cwmnïau yn dilyn y tuedd ac yn cynhyrchu gwirodydd â blas arloesol.
- Proffil busnesau Cymru’n cynyddu.

## Gwendidau

- Nifer fach o fusnesau, yn cyflenwi cyfran fach o farchnad Prydain.
- Graddfa fach.
- Proffil isel.
- Diffyg brag Cymreig.

## Cyfleoedd

- Cynnyrch crefft brand Cymreig.
- Cynnyrch cysylltiedig â thwristiaeth.
- Gwirodydd alcohol isel/di-alcohol.
- Defnyddwyr yn symud tuag at gynnyrch premiwm gyda stori/cysylltiad.
- Galw gan ddefnyddwyr am gynnyrch arloesol.

## Bygythiadau

- Lobi iechyd.
- Costau dosbarthu uchel.

# Perfformiad y Farchnad Ddiodydd

## Crynodeb o Berfformiad Prydain a Chymru

### Data Adwerthu Kantar[6]

- Mae marchnad diodydd alcoholig Prydain yn werth £12bn. Mae cyfanswm gwariant Prydain 1% yn uwch a chyfaint 1.4% yn uwch.
- Mae marchnad diodydd alcoholig Cymru yn werth £710m, 1.5% yn is mewn gwerth, ond 1% yn uwch mewn cyfaint.
- Ym Mhrydain, mae gwin a gwin pefriog yn cyfrif am 44% o werthiant diodydd ar £5.31bn.
- Yng Nghymru, mae gwerthiant gwin a gwin pefriog ychydig yn is pro rata ar 42%.



- Mae marchnad diodydd meddal i fynd adref Prydain yn werth £3.38bn, 1.7% yn is mewn gwerth, ond 0.4% yn uwch mewn cyfaint.
- Mae marchnad diodydd meddal i fynd adref Cymru yn werth £198m, 5.5% yn is mewn gwerth a 4.3% yn is mewn cyfaint .
- Mae diodydd meddal pefriog, sy'n cyfrif am bron i hanner gwerthiant diodydd meddal Prydain 3.6% yn is mewn gwerth a 3.4% yn is mewn cyfaint.
- Mae gwerthiant adwerthu dŵr mwynol yn tyfu'n gryf, 8.7% yn uwch ym Mhrydain i £442m, a 9.6% yn uwch yng Nghymru i £26m.



6 12 mis hyd at Fedi 2016

# Perfformiad Adwerthu Diodydd Alcoholig

| Diodydd Alcoholig Prydain | Gwariant (£000) 2017[7] | % Newid | Cyfaint (000 Uned) 2017 | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| Alcoholig | 12,086,320 | 0.9 | 2,632,425 | 0.2 |
| Cwrw a Lager | 2,167,901 | 1.0 | 1,115,366 | -0.8 |
| Seidr | 744,575 | 1.1 | 395,523 | -0.2 |
| Fabs (diod alcoholig â blas) | 140,438 | -1.5 | 32,229 | 1.7 |
| Gwin Pefriog | 778,588 | 14.5 | 111,977 | 14.3 |
| Gwirodydd | 3,439,693 | 1.5 | 201,694 | 1.7 |
| Gwin | 4,580,605 | -1.3 | 738,575 | -0.2 |
| Cyfanswm | 12,086,320 | 0.9 | 2,632,425 | 0.2 |

Noder: Data 12 Mis at Ionawr 2017
Ffynhonnell: Kantar 2017

| Diodydd Alcoholig Cymru | Gwariant (£000) Bl at Fedi 2016 | % Newid | Cyfaint (000 Uned) Bl at Fedi 2016 | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| Alcoholig | 709,997 | -1.5 | 169,899 | 1.0 |
| Cwrw a Lager | 125,362 | -6.0 | 69,754 | -6.0 |
| Seidr | 61,523 | 17.5 | 35,568 | 20.2 |
| Fabs (diod alcoholig â blas) | 7,470 | -8.0 | 1,908 | 0.4 |
| Gwin Pefriog | 38,763 | 20.0 | 5,310 | 17.6 |
| Gwirodydd | 206,382 | -8.3 | 12,514 | -6.6 |
| Gwin | 259,071 | 0.7 | 43,050 | 0.9 |
| Cyfanswm | 709,997 | -1.5 | 169,899 | 1.0 |

Noder: Data 12 Mis at Fedi 2016

7 Kantar WP 12 Mis at Ionawr 2017

## Cwrw

Roedd gwerthiant adwerthu cwrw a lager Prydain 1% yn uwch y llynedd, yn werth £2,172m. Roedd y cynnydd mewn gwerth yn cyd-fynd â'r cynnydd mewn cyfaint o ychydig o dan 1%. Serch hynny, roedd gwerthiant cwrw a lager Cymru 6% yn is yn 2016 o'i gymharu â 2015, er gwaethaf perffomiad Cymru yn Ewro 2016 yn rhoi hwb i werthiant. Mae'r categori'n dal i gyfrif am 18% o werthiant adwerthu alcohol ac yn werth £125m. Mae'r gystadleuaeth adwerthu ddiweddar wedi rhoi pwysau sylweddol ar y bragdai mawr, gyda brandiau mawr yn cael eu tynnu oddi ar restrau (wrth i Tesco dynnu Carlsberg oeddi ar eu rhestr, collodd y brand £77m o werthiant adwerthu) ac eraill yn hyrwyddo brandiau'n helaeth. Mae'r pwysau'n cael ei gynyddu gan y bunt wan yn gwrthio prisiau'n uwch a herio marchnad y defnyddwyr. Mae'r bragdai canolig yn gweld y farchnad yn arbennig o anodd, gyda phwysau ar brisiau, costau uwch a llai o deyrngarwch defnyddwyr.

### Dewis Cynnyrch Premiwm

Mae siopwyr yn troi at lager premiwm a'r byd, gyda gwerthiant Kronenbourg (+6.2%), Peroni (+12%), San Miguel (+11%) a Corona (+90%) yn uwch yn y flwyddyn at Ebrill 2016[8]. Mae cynnyrch megis Tyskie o Wlad Pwyl, Cobra o India a Tsingtao o Tsienia yn gwneud yn dda, yn ymateb i'r galw gan grŵp defnyddwyr ifanc a chefnog sydd am brofi cwrw newydd. Yn gynyddol felly, mae rhagor o le yn cael ei roi i boteli unigol a chaniau 330ml yn hytrach na phecynnau mawr a phecynnau o bedwar.



### Iechyd

Gyda'r tuedd tuag at gynnych heb elfennau penodol yn dylanwadu ar holl gynnyrch bwyd a diod, mae'r farchnad gwrw hefyd yn ymateb. Lansiwyd Celia, brand Tsiecaidd ym Mehefin 2016, gan gynnig lager wedi'i fragu'n agored, pefriog yn naturiol a di-glwten, ac addas i feganiaid; mewn caniau 330ml. Mae cwrw di-glwten yn faes twf sylweddol, gyda brwgwyr fel Tennents yn cael llwyddiant yn y farchnad mewn gwledydd fel yr Eidal ac yn lansio yn y DG. Mae lager calori isel, fel y Skinny Brand Ltd yn cynnig lager cryfder llawn gyda llai o siwgr a charbohydradau na lager arferol. Mae ABI am lansio Bud Light fel dewis calori is na Budweiser.

### Arloesi

Yn y farchnad cwrw crefft, mae twf mewn cwrw ffrwythau. Mae brandiau fel Blue Moon, sy'n eiddo i Molson Coors wedi bod yn gwerthu'n dda yn yr UDA a Chanada, a bellach yn cael llwyddiant ym Mhrydain. Yn dilyn llwyddiant seidr ffrwythau Koppaberg dros y ddegawd ddiwethaf, fe lansiwyd eu lager Lemon a Leim yn haf 2016. Mae mwyafrif y cynnyrch yn y category o wlad Belg, ond mae bragdai o'r DG, fel Beavertown, Charles Wells a Samuel Smith yn cael llwyddiant gyda chwrw crefft ffrwythau sydd ag enw da[9].

8 IRI data, Grocer Beer and Cider Focus 2016
9 www.independent.co.uk/extras/indybest/food-drink/best-fruit-beers-belgian-2016-a7136266.html

Gyda chyfran gynyddol o'r boblogaeth yn ymwrthod (yn enwedig ymhlith y genhedlaeth iau) mae symudiad cryf tuag at ddiodydd alcohol isel a di-alcohol ym mhob categori. Bydd Tesco yn agor adran ddi-alcohol ym Mawrth 2017 ac mae nifer o gynhyrchwyr crefft yn ymateb i'r galw, sydd yn ôl y dadansoddwyr Liberum, yn cynyddu bedair gwaith yn gyflymach na'r category cwrw drwyddi draw. Enghreifftiau allweddol yw cwrw Nanny State Brewdog (ABV 1.1%), Heineken 00 a St Peter's Without gan St Peter's Brewery (cwbl ddi-alcohol, ac wedi cael ymateb da a chael cytundebau allforio mewn 15 gwlad). Mae ABI wedi gosod targed o gael cwrw alcohol isel a di-alcohol i gyfrif am 20% o'u gwerthiant erbyn 2025,[10] er nad yw'r fersiwn di-alcohol o Budweiser wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae data Kantar dangos fod gwerthiant cwrw di-alcohol ym Mhrydain yn werth £15m yn y flwyddyn at Ionawr 2017, 4% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.



## Crefft

Mae nifer y cwrw crefft newydd ar y farchnad yn sylweddol. Yng Nghymru, mae nifer y bragdai bach a micro yn cynyddu'n barhaus. Mae adwerthwyr yn rhoi mwy o le i gwrw crefft, ar wahân i lager arferol. Wrth i Tesco dynnu Carlsberg oddi ar eu rhestr, ychydig o gynnydd oedd yng ngwerthiant eu cystadleuwyr, gyda Fosters i lawr 6.6% y flwyddyn a Carling heb newid. Yn yr un modd, mae cwrw a stowt yn colli tir i gwrw crefft a phremiwm. Mae John Smiths, Boddingtons, Newcastle Brown Ale a Tetley's wedi gweld gostyngiad mewn gwerthiant. Mae'r galw gan ddefnyddwyr am gwrw a lager crefft yn gyrru bragwyr mawr i brynu cwmniau bach i gwrdd â'r galw. Mae cwrw Doom Bar, sydd wedi'i brynu gan Molson Coors, wedi gweld twf cryf. Mae Guinness wedi lansio'r Brewers Project gyda chwrw newydd fel Hop House 13 yn gwneud yn dda. Mae ABI yn ymdrechu'n fawr i hyrwyddo ei frand crefft Americanaidd Goose Island yn y DG, sydd wedi gweld cynnydd mawr mewn dosbarthu i'r archfarchnadoedd, a chynnydd sylweddol mew cyfaint.

Tra mai cael lle ar restrau prif adwerthwyr yw'r ffordd orau i'r farchnad i nifer o gynhyrchwyr cwrw crefft, gall cystadleuaeth gref olygu fod hyn yn anodd. Llwybr arall posibl i gynhyrchwyr lleol yw'r siopau cyfleuster llai. Yn ôl dadansoddiad Diageo, tra bo 90%[11] o ddefnyddwyr yn prynu alcohol, dim ond 30% sy'n gwneud o siopau cyfleuster. Mae heriau o ran lle ar y silff, ond mae'r cyfle i dyfu yn y farchnad hon yn sylweddol, ac yn lle addas i ymateb i gyflenwyr cwrw crefft lleol.

10 FT Rhag 2016
11 Kantar Ion 2017

## Seidr

Mae gwerthiant seidr wedi parhau i dyfu'n gryf yng Nghymru er gwaethaf gostwng 0.6% ar lefel Brydeinig. Roedd cyfanswm gwerthiant seidr yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at Fedi 2016 17.5% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ac yn werth £61.5m, gyda chyfaint 20% yn uwch. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr aelwydydd sy'n prynu cwrw, i fyny o 48% yn 2014 i 50% yn 2016. Gydag amlder prynu yn uwch, tyfodd gwariant y prynwr ar seidr yng Nghymru bron i 16% yn 2016 o'i gymharu â 2015 i £71.75 y flwyddyn, sy'n sylweddol uwch na gwariant y prynwyr ym Mhrydain o £59.03[12].

Mae marchnad adwerthu Cymru yn rhoi darlun gwahanol i Brydain gyfan, lle mae cyfanswm gwariant seidr wedi aros yn gyson a brandiau seidr prif ffrwd yn gweld eu cyfran o'r farchnad yn gostwng gyda chynhyrchwyr crefft yn mynd â chyfran fwy o'r farchnad.

Mae dwy elfen greiddiol i'r farchnad seidr – y cyntaf yw'r twf mewn seidr traddodiadol, gyda phwyslais cryf ar darddiad a dull cynhyrchu. Mae brandiau fel Thatcher's Gold yn enghraifft dda o fusnes teuluol rhanbarthol yn tyfu'n llwyddiannus yn frand cenedlaethol, gan berfformio'n well na'r farchnad. Mae seidr ffrwythau wedi bod yn boblogaidd ers amser, gyda brandiau Koppaberg yn cael eu cynrychioli'n dda yn y farchnad. Mae brandiau prif ffrwd yn awyddus i fynd i mewn i'r farchnad hon, e.e. Strongbow Dark Fruit. Mae enghreifftiau eraill o frandiau ar y farchnad yn cynnwys Stella Artois Cidre ABI, Stassen ac Old Mout gan Heineken a seidr ffrwythau Smirnoff a lansiwyd ym Mehefin 2016 a seidr blas gwirodydd Blind Pig.

### Diodydd Alcoholig â Blas (FABS)

Tra bo cyfanswm gwerthiant Fabs wedi parhau'n eithaf cyson ar lefel Brydeinig, ar oddeutu £148m, mae cyfaint wedi cynyddu 4% y flwyddyn – gyda chynnydd yn nifer yr aelwydydd sy'n prynu Fabs. Yn yr adran hon, mae cynnyrch crefft a phremiwm yn gyrru gwerthiant. Mae twf wedi bod mewn cynnyrch fel cwrw sinsir, te oer a diodydd melys alcoholig yn taro pen uchaf y farchnad, a symudiad clir oddi wrth yr alcopops lliwgar a melys.

Mae data Kantar yng Nghymru yn dangos fod Fabs yn parhau i ddirywio, gyda gwerthiant blynyddol 8% yn is yn y flwyddyn at fis Medi, ac yn werth £7.5m. Ymddengys nad yw'r symudiad tuag at gynnyrch premiwm yn yr adran hon wedi gafael eto yng Nghymru, ond gyda thwf cryf yn yr UDA, a marchnad yn amlygu ym Mhrydain, mae'n debygol y bydd y tuedd yn dilyn, gyda Fabs yn cael mwy o ran o'r farchnad yn y dyfodol, gan gwrdd â'r galw yn y farchnad am ddiodydd diddorol gyda llai o siwgr a llai o alcohol.

## Gwirodydd

Ar lefel Brydeinig, mae gwerthiant gwirodydd wedi bod yn gryf dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r data diweddaraf yn dangos gwerthiant adwerthu o £3.44 biliwn, 1.5% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol a chyfaint gwerthiant 1.7% yn uwch[13]. Mae gwariant at wirodydd yn cyfrif am 28% o wariant adwerthu Prydain ar alcohol. Mae'r adran hon, fel diodydd eraill, wedi gweld pen premiwm a chrefft y farchnad yn ffynnu. Yn ôl Mintel GNPD, gwelwyd cynnydd o 265% mewn lansio gwirodydd crefft rhwng 2011 a 2015, gyda'r UDA (49% o'r lansiadau) ac Ewrop (42% o'r lansiadau) yn gyrru'r farchnad[14]. Yn ôl yr ymchwil, mae 55% o ddefnyddwyr yn yr UDA, 55% yn Ffrainc, 53% yn yr Eidal a 50% yn yr Almaen yn credu fod brandiau alcohol crefft o well ansawdd na'r brandiau mawr. Mae 37% o ddefnyddwyr gwirodydd y DG yn fodlon talu mwy am wirodydd crefft.

Mae 43% o'r gwirodydd sy'n cael eu lansio'n fyd-eang yn chwisgi, ond gyda gin yn aeddfedu'n gynt, roedd yn cyfrif am 23% o'r lansiadau yn 2015, i fyny o 9% yn 2011. Mae ymchwil yn awgrymu fod Cenhedlaeth y Mileniwm yn gyrru'r farchnad fyd-eang mewn gwirodydd crefft, gan chwilio am frandiau niche newydd a gwahanol. Ym marchnad yr UDA, mae galw cryf am wirodydd â blas, gyda 41% o ddefnyddwyr yn chwilio am flas wrth brynu gwirod gwyn a 36% yn chwilio am wirod tywyll â blas ffrwythau. Nid yw hyn yn elfen sylweddol o'r hyn sydd ar gael yn y DG, ond mae gin gyda blas ysgawen, cardamom, eirin duon bach a grawnffrwyth yn dod yn fwy a mwy poblogaidd. Enghreifftiau o gin Cymreig sy'n ymateb i'r farchnad yw Pollination Gin Distyllfa Dyfi a gin gwymon Da Mhile.

12 Kantar Medi 2016
13 Blwyddyn at Ion 2017 kantar
14 www.mintel.com/press-centre/food-and-drink/craft-spirits-today-account-for-one-in-seven-global-spirit-launches

Gyda Chenhedlaeth y Mileniwm yn arbennig yn troi eu cefn ar alcohol[15], a chynnydd mewn pobl sy'n cymryd rhan mewn Ionawr a Hydref sych, mae'r twf mewn diodydd alcohol isel a di-alcohol ar gyfer y farchnad oedolion ar gynnydd, ac mae hyn i'w weld yn y farchnad wirodydd. Shims – mae coctels alcohol isel yn tyfu'n gryf ac mae brandiau Eidalaidd fel Aperol yn dod yn amlycach ar ddewislenni bariau coctel y DG (abv 11%) ac yn gwerthu'n dda yn Ffrainc[16]. Mae Diageo wedi buddsoddi yng nghwmni newydd Seedlip, gan gynnig y gwirod wedi'i ddistyllu di-alcohol cyntaf ar y farchnad.

Er gwaethaf twf gwirodydd Prydain ar lefel adwerthu, mae data Cymru'n dangos fod gwariant adwerthu ar wirodydd wedi gostwng dros 8% yn y flwyddyn at Fedi 2016, gyda gostyngiad yn amlder prynu a chyfanswm gwariant gan bob prynwr. Drwyddi draw, roedd gwerthiant yn cyfateb i £206m, gan gyfrif am 30% o wariant adwerthu Cymru ar alcohol. Felly, er bod gwerthiant gwirodydd wedi gostwng, fel cyfran o gyfanswm y gwariant ar alcohol, mae cyfran gwariant ar wirodydd yn parhau'n uwch yng Nghymru nag ym Mhrydain.



## Gwin a Gwin Pefriog

Mae gwerthiant adwerthu gwin pefriog yn tyfu mewn digidau dwbl, wedi'i yrru gan fwy o gymdeithasu yn y cartref a gwesteia. Mae blas ym Mhrydain am Prosecco yn gyrru twf – a mynd a'r fizz o champagne, sy'n colli cyfran sylweddol o'r farchnad i Prosecco o'r Eidal a Cava o Sbaen. Yng Nghymru, mae gwerthiant gwin pefriog yn cyfrif am 5% o werthiant adwerthu alcohol, gwerth £38.8m a 20% yn uwch y flwyddyn. Mae gwerthiant gwin yn cyfrif am 36% o werthiant, gwerth £259m a 0.7% yn uwch y flwyddynr.

## Crynodeb: Diodydd Alcoholig

Mae'r farchnad ddiodydd alcoholig yn gweld twf cryf mewn cynnyrch crefft a phremiwm. Yn y diwydiant bwyd a diod, mae trafodaeth helaeth am ddefnyddwyr am gael cyswllt â'r cynnyrch, a theimlo eu bod yn rhan o brofiad. Mae hyn yn amlwg yn y diwydiant diodydd, gyda chynnyrch sy'n cysylltu â'r defnyddwyr yn ennill tir oddi ar y cynnyrch arferol.

15 75% yn nodi eu bod yn ceisio yfed llai ar noson allan Ffynhonnell: Future Laboratories 2016
16 Future Laboratories 2016

# Perfformiad Adwerthu Diodydd Meddal

| Diodydd Meddal Prydain | Gwariant (£000) 2016 | % Newid | Cyfaint (000 Uned) 2016 | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Diodydd Meddal i fynd Adref | 3,382,564 | -1.7 | 4,916,970 | 0.4 |
| O hynny: Sudd Ffrwythau Tymheredd Cwmpasol | 315,038 | -8.1 | 384,717 | -6.5 |
| Cyfanswm Diodydd Meddal Pefriog | 1,631,214 | -3.6 | 2,358,326 | -3.4 |
| Cymysgyddion (cynnwys tonic, soda, lemon chwerw a a chwrw sinsir (ginger ale)) | 124,593 | 13.8 | 169,153 | 9.0 |
| Dŵr Mwynol | 442,205 | 8.7 | 1,252,791 | 11.8 |
| Sgwash Ffrwythau | 516,473 | -0.7 | 484,340 | -1.1 |
| Cyfanswm Diod Oer | 869,082 | 0.6 | 669,067 | 1.1 |
| O hynny: Sudd Ffrwythau Oer | 691,590 | 1.1 | 579,854 | 1.9 |

| Diodydd Meddal Cymru | Gwariant (£000) 2016 | % Newid | Cyfaint (000 Uned) 2016 | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Diodydd Meddal i fynd Adref | 198,084 | -5.5 | 299,797 | -4.3 |
| O hynny: Sudd Ffrwythau Tymheredd Cwmpasol | 17,014 | -10.4 | 21,837 | -6.65 |
| Sudd Ffrwythau Oer | 37,78 | -0.2 | 33,235 | 0.1 |
| Cyfanswm Diodydd Meddal Pefriog | 101,993 | -8.0 | 154,494 | -9.1 |
| Cymysgyddion (cynnwys tonic, soda, lemon chwerw a a chwrw sinsir (ginger ale)) | 6,164 | 6.5 | 9,919 | 2.2 |
| Dŵr Mwynol | 25,652 | 9.6 | 70,151 | 10.9 |
| Sgwash Ffrwythau | 27,688 | -7.7 | 27,472 | -8.6 |
| Cyfanswm Diod Oer | 47,608 | -3.7 | 38,592 | -1.5 |
| O hynny: Sudd Ffrwythau Oer | 37,782 | -0.2 | 33,235 | 0.1 |

Drwyddi draw, mae'r farchnad diodydd meddal yn dirywio yn sgil datchwyddiant (rhyfel adwerthu) ac agwedd y defnyddwyr tuag at siwgr. Mae data diweddaraf Kantar yn dangos fod gwerthiant adwerthu diodydd meddal ym Mhrydain yn y 52 wythnos hyd at Ionawr 2017 yn £3,383m, 2% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Mae cola mewn caniau a photeli yn cyfrif am chwarter y gwerthiant, ond roedd cyfaint 6% yn is na'r llynedd. Roedd gwerth gwerthiant lemonêd hefyd 8% yn is na'r llynedd.

Mae cynhyrchwyr dan bwysau oherwydd cost posibl chwyddiant – ar effaith ar wariant y defnyddwyr a chost y cynhwysion. Mae gwerth is y bunt yn effeithio ar gostau siwgr, metel a phlastig. Bydd y dreth ar ddiodydd meddal hefyd yn effeithio ar brisiau ac yn sgil y gystadleuaeth ym maes adwerthu, bydd cynhyrchwyr dan bwysau i gymryd rhan o'r baich wrth i brisiau godi. Ar y cyd â hyn, mae'r galw am ystod arferol pop (poteli 2L) yn gostwng yn sgil pryder defnyddwyr am siwgr ac iechyd.

Serch hynny tra bo'r cwmnïau rhyng-genedlaethol mawr a'r pop arferol yn cael eu taro wrth i ddefnyddwyr osgoi siwgr a melysyddion artiffisial, mae'r farchnad bremiwm i oedolion yn ffynnu[17].

## Diod Pefriog Crefft: Diodydd Meddal i Oedolion

Mae'r DG wedi gweld twf cryf yn y farchnad diod pefriog crefft, yn sgil blasau botanig, soffistigedig ac anarferol wedi'u hanelu at oedolion. Mae'n faes gyda llawer o weithgaredd yn datblygu cynnyrch newydd, gyda llawer yn cael ei arwain gal chwaraewyr llai. Mae tair elfen amlwg o'r farchnad yn cynnwys 'di-alcohol' 'cymysgyddion crefft' a 'diodydd meddal i oedolion'.

## Diodydd Pefriog Crefft Di-alcohol

Gyda chyfran gynyddol o'r boblogaeth yn llwyr ymwrthod, poblogrwydd cynyddol ymgyrchoedd mis Ionawr a mis Hydref sych, a thwf achlysuron cymdeithasol – mae'r galw am ddiodydd di-alcohol ar gynnydd. Mae brandiau fel Belvoir wedi targedu'r farchnad trwy lansio dewisiadau yn lle gwin, megis Shiraz without the Hangover gan Belvoir; lansiodd Shloer eu cynnyrch Celebration, Bottlegreen Sparkling Presse, Thomas and Evans No1 Sparkling Fruit a dewis botanig yn lle gwin gan Botonique.

## Cymysgyddion Crefft

Mae'r twf mewn distyllu crefft, yn enwedig gin, wedi arwain at gynnydd aruthrol yn y galw am gymysgyddion crefft – gyda brandiau fel Fever Tree[18] yn arwain y ffordd. Mae cymysgyddion crefft yn cael eu marchnata ochr yn ochr â gwirodydd premiwm i gyd-fynd yn berffaith. Mae deorfa fusnes Britvic, Wisehead Production wedi lansio'r London Essence Company i gystadlu yn y farchnad hon, ac mae'r cwmni Cymreig Llanllyr wedi lansio amrediad o gymysgyddion premiwm yn defnyddio ei ddŵr mwynol naturiol. Mae data Kantar yn dangos fod gwerthiant dŵr tonic wedi gweld twf digidau dwbl dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a 24% yn uwch yn y flwyddyn at Ionawr 2017.



17 Grocer adroddiad ffocws ar ddiodydd meddal i oedolion, Rhagfyr 2016
18 Gwerthiant blynyddol 33.8% yn uwch yn y flwyddyn at Awst 2016, ar £2.6m. Kantar WP



## Diodydd Meddal i Oedolion

Gyda mwy o fwyta wrth fynd, a rhagor o fwyta allan[19] – mae twf hefyd yn y farchnad diodydd meddal i oedolion. Gan symud oddi wrth bop arferol, mae ffocws y farchnad ar gyfuniadau blas mwy soffistigedig ac anarferol fel blas ffebrins Cawston Press, pomgranad ac ysgaw Bottlegreen, mafon a llugaeron Drench a chynnyrch Heartsease Farm Radnor Hills. Tra bo ffocws ar lefelau siwgr, a nifer o frandiau'n cynnig dewis ysgafn, ffrwythau a dŵr pefriog (e.e. J2O Spritz), nid yw'n ymddangos yn brif ffactor. Mae diodydd llawn siwgr yn yr adran hon hefyd yn perfformio'n dda, gan gael eu gweld fel trêt/achlysurol. Ychydig o'r diodydd meddal premiwm i oedolion sy'n cael eu gwerthu mewn poteli mawr 2 litr, gan atgyfnerthu mai diod achlysurol ydyw.

Mae'n anodd gwahanu twf yr elfennau hyn o fewn sector sy'n dirywio, wedi'i yrru gan ostyngiad mewn lefelau yfed pop arferol a sudd ffrwythau. Ond gyda brandiau mawr fel Britvic yn buddsoddi (mae Thomas and Evans No 1 a London Essence Company yn rhan o ddeorfa sy'n eiddo i Britvic), a chwmnïau fel Radnor Hills, Fentiman, Cawston Press a Fever Tree oll yn gweld twf cryf, mae gwir sgôp i'w weld yn y sector.

Yn ôl adroddiad Britvic yn 2016[20] mae'r farchnad allan o'r cartref yn gynyddol bwysig. Gwelodd 2015 dwf cryf mewn gwariant ar ddiod di-alcohol allan o'r cartref. Yn 2015, mae'r adroddiad yn nodi fod gwerthiant y DG ar £6.7bn 6.6% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd mewn achlysuron bwyta allan yn gyrru gwerthiant.

Her i unrhyw fusnes sy'n mynd i'r farchnad hon yw faint o le ar silffoedd sy'n cael ei roi i ddiodydd meddal, a chystadleuaeth chwyrn gan y prif frandiau.

# Dŵr Mwynol

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfran dŵr mwynol o'r farchnad adwerthu diodydd meddal wedi bod ar gynnydd, a bellach yn cynrychioli 13.3% o'r gwerthiant, gwerth £451m[21]. Wrth i gyfanswm gwerth y categori diodydd meddal ostwng, mae dŵr mwynol wedi gweld twf blynyddol o 11% a 8% dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a thwf mewn cyfaint o 11% a 12%. Mae mwy o bobl yn prynu dŵr mwynol, gyda threiddiad yn cynyddu o 67% yn 2014 i 71% yn 2016, a phobl yn prynu dŵr mwynol yn amlach, i fyny 6% yn y flwyddyn at Ionawr 2017. Drwyddi draw, cynyddodd gwariant blynyddol defnyddwyr ar ddŵr mwynol £2.25 ers 2014 i £23.38 erbyn diwedd 2016. Mewn lle naturiol a delfrydol i gwrdd â gyriant iechyd y defnyddwyr, mae cwmniau'n datblygu cynnyrch i gwrdd â'r galw cynyddol hwn. Mae cwmniau dŵr yn ymestyn eu cynnyrch i gynnwys dŵr blas ffrwythau fel Hydra8 Highland Spring, cynnyrch Essence Trederwen ac Aqua Roma Montgomery Spring, sydd oll yn cael

19 Nododd adroddiad Diodydd Meddal Britvic fod 1m o brofiadau bwyta allan yn 2015 o'i gymharu â 2014
20 Adolygiad Diodydd Meddal Britvic Hamdden 2016
21 Kantar WP Blwyddyn at 01 Ionawr 017 £451,346,000

eu cynhyrchu yng Nghymru. Mae'r farchnad hefyd yn gweld cynnydd mewn dŵr â swyddogaeth, yn cynnwys Smartwater sydd ag electrolytau a POW Energy Water sydd â chaffein. Mae defnyddwyr sy'n symud o ddiodydd meddal at ddŵr yn cael eu denu gan amrywiaeth o ddewisiadau gan fod cwmnïau yn awyddus i ddal y farchnad gynyddol hon.

## Diodydd Chwaraeon ac Iechyd

Er gwaethaf pryderon am siwgr, mae'r farchnad ddiodydd chwaraeon ac egni'n ffynnu, gyda 7 o'r 10 prif frand yn gweld twf mewn gwerth a chyfaint[22]. Mae datblygu cynnyrch, marchnata cryf a blasau newydd yn allweddol i'w llwyddiant. Rhagwelir y bydd diodydd egni calorïau isel sy'n werth £31m ar hyn o bryd yn tyfu i £200m mewn pum mlynedd[23]. Tra bo'r prif ffocws ar y farchnad ifanc, yn yr arddegau, gyda brandiau fel Rockstar (AG Barr) a Relentless Passion Punch (Coca Cola), mae cynnyrch newydd yn amlygu sy'n ehangu apêl y farchnad diodydd egni.

Yn ogystal â diodydd egni, mae datblygiad cryf mewn diodydd â swyddogaeth neu ddiodydd iechyd. Maent yn amrywio o ddiodydd blas ffrwythau â fitaminau ychwanegol, i gynhwysion help i iechyd fel cynnyrch Belvoir Botanicals sy'n cynorthwyo imwnedd a'r croen, a chynnyrch egni naturiol fel diodydd botanig aml-fitamin Purdey's.



## Crynodeb: Diodydd Meddal

Mae materion iechyd yn gyrru newid yn y farchnad ddiodydd meddal ac mae cwmniau'n arloesi i gwrdd â galw ymhlith cwsmeriaid. Mae diodydd arferol, llawn siwgr yn dirywio ar draws diodydd pefriog a sudd ffrwythau. Mae defnyddwyr yn symud tuag ar ddiodydd iachach, siwgr isel, naturiol, seiliedig ar ddŵr – yn enwedig i'w yfed wrth fynd. Maes datblygu allweddol newydd yw'r farchnad bremiwn i oedolion, yn enwedig o ran cymysgyddion crefft a diodydd pefriog i oedolion – lle mae ansawdd a chyfuniadau blas yn allweddol.

22 Grocer
23 Pennaeth Marchnata AG Barr, adroddiad gan y Grocer 23 Ebrill 2016

# Astudiaeth Achos Bragu – Bragdy Mŵs Piws

## Cynnyrch:

**Pum cwrw safonol mewn casgenni neu boteli:**
Cwrw Eryri / Snowdonia Ale (3.6%),
Cwrw Madog / Madog's Ale (3.7%),
Cwrw Ysgawen / Elderflower Ale (4.0%)
Cwrw Glaslyn / Glaslyn Ale (4.2%) a
Ochr Tywyll y Mŵs /
Dark Side of the Moose (4.6%).
Cynhyrchir cwrw arbennig misol a thymhorol hefyd.

**Cwrw crefft newydd mewn casgen neu botel:**
Antlered IPA (5.2%), Chocolate Moose (4.5%)
a Mŵsh Lager (4.7%)

## Lleoliad:

Stryd Madog,
Porthmadog,
Gwynedd,
LL49 9DB.

Sefydlwyd Bragdy Mŵs Piws yn 2015 gan Lawrence Washington.

Gwelodd Lawrence fwlch yn y farchnad i ficro fragdy, oedd yn syniad gweddol newydd yng ngogledd Cymru ar y pryd. Ar ôl dechrau bragu adref, gwnaeth Lawrence y newid i fod yn fusnes llawn amser ym Mhorthmadog, gogledd Cymru. .

Mae hwn wedi bod yn un o'r micro fragdai sydd wedi bod yn tyfu gyflymaf yng Nghymru, ac mae ganddo bellach gyfleuster 40 casgen.

Ynghyd â'r bragdy, mae gan Fŵs Piws ei siop ei hun, sydd wedi symud yn ddiweddar o'r bragdy i'r Stryd Fawr ym Mhorthmadog. Mae hyn yn caniatáu i'r cwmni fanteisio ar y farchnad dwristiaid. Mae teithiau trwy'r bragdy a sesiynau blasu hefyd ar gael dri diwrnod yr wythnos ym Mhorthmadog.

Yn gynnar yn 2017 cymrodd Mŵs Piws dafarn yr Australia, ar Stryd Fawr Porthmadog, fel tafarn y bragdy. Mae'r dafarn wedi cael gwaith adnewyddu sylweddol, ac mae bellach yn chwifio baner Mŵs Piws a'i ystod o gwrw. Gweinir bwyd cartref hefyd, gyda rhai prydau yn defnyddio'r cwrw, ynghyd â chynhwysion lleol eraill.

Ar y cyd â bragwyr lleol eraill; Conwy, Great Orme a Nant, mae gan Fŵs Piws hefyd ddwy dafarn yng Nghonwy. Cyrhaeddodd un ohonynt, Albion Ale House, rownd derfynol cystadleuaeth Tafarn y Flwyddyn genedlaethol y Campaign for Real Ales (CAMRA).

Mae'r cwmni bellach yn cyflogi 14 yn y bragdy ac 20 arall yn ei dafarndai yng ngogledd Cymru, gyda throsiant o £1.5m.

Mae llwyddiant Mŵs Piws i'w weld trwy dros 80 gwobr leol a chenedlaethol, yn cynnwys tlws fforc aur 'Best Welsh Speciality' gwobrau Great Taste yn 2011. Cefnogodd Llywodraeth Cymru'r cwmni wrth iddo sefydlu, ynghyd â chefnogi gyda hyfforddiant a theithiau hybu allforio i Tsieina, Sweden a'r Ffindir.

Y nod yw parhau i dyfu'n organig a cheisio datblygu marchnadoedd allforio proffidiol ynghyd ag ehangu ei rwydwaith ddosbarthu yng Nghymru a Lloegr.

# Astudiaeth Achos Gwinllannoedd – Gwinllan White Castle

WHITE CASTLE VINEYARD

## Amrywiaethau:

Pinot Noir,
Regent,
Rondo,
Seyval Blanc,
Phoenix, and
Siegerrebe.

## Arwynebedd:

1.8 ha a 1.5ha i’w blannu yn 2017.

## Lleoliad:

Llanvetherine,
Abergavenny
NP7 8RA.

Sefydlwyd Gwinllan White Castle yn 2008 gan Robb a Nicola Merchant – tîm gŵr a gwraig. Breuddwyd Nicola oedd bod yn berchen ar winllan.

Sefydlwyd y winllan trwy brynu cae wrth ymyl tyddyn y teulu, a brynwyd 13 mlynedd yn gynt.

Plannwyd y gwinwyddau cyntaf yn 2009 gan blannu rhagor yn 2010 gan ddod â chyfanswm yr arwynebedd i 1.8ha. Cafwyd hyfforddiant mewn gwinwyddaeth yng Ngholeg Plumpton Dwyrain Sussex. Cafwyd y cynhaeaf cyntaf yn 2011 pan gafodd White Castle Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO) gan Wine Standards, gan ganiatau iddynt labelu eu cynnyrch fel Welsh Quality Wine.

Mae’r amrywiaethau a blannwyd ganddynt yn cynnwys Pinot Noir, Regent, Rondo, Seyval Blanc, Phoenix, a Siegerrebe. Mae hyn yn caniatau i White Castle gynhyrchu cymysgedd o win coch, gwyn a rose yn cynnwys gwin pefriog; gan werthu pob un o siop y winllan. Mae’r grawnwin yn cael eu hel â llaw, a’u gwasgu’r un dydd yng ngwindy Three Choirs yn Newent. Bydd 1.5ha arall yn cael eu plannu yn 2017.

Yn ddiweddar, adnewyddodd White Castle ysgubor restredig Gradd II* sy’n dyddio o’r 16eg Ganrif. Caiff ei ddefnyddio nawr ar gyfer siop a digwyddiadau yn y winllan. Ynghyd â gwerthu gwin o siop y winllan, caiff cynnyrch lleol arall ei werthu, a chynigir sesiynau blasu gwin gyda bwyd, e.e. caws Cymreig a gwin Cymreig. Y nod yw rhoi profiad llawn i’r cwsmer.

Y nod yw targedu marchnadoedd premiwm yn lleol ac yn bellach i ffwrdd. Mae White Castle wedi allforio Gwin Gwyn 2014 i Bordeaux, Ffrainc, ac arddangos gwinoedd Cymreig yn Fortnum & Mason, Llundain.

# Astudiaeth Achos Distyllu – Distyllfa Dyfi

## Lleoliad:

Dyfi Original Gin, Pollination Gin a Hibernation Gin

## Lleoliad:

Distyllfa Dyfi,
Corris,
Machynlleth,
Powys
SY20 9RF

**Wedi'i leoli yn y Biosffêr UNESCO yn Nyffryn Dyfi, canolbarth Cymru, sefydlwyd Distyllfa Dyfi gan y brodyr Pete a Danny Cameron a'i wneud yn gwmni cyfyngedig yn 2015.**

Mae Distyllfa Dyfi yn cynhyrchu tri gin: Dyfi Original Gin, Pollination Gin a Hibernation Gin. Maent yn micro-ddistyllu'r botanegau wedi'u mewnforio mewn gwirod gwenith Prydeinig i greu eu 'cynfas', sylfaen botanig clasurol ar gyfer adeiladu eu gin. Mae'r sylfaen yn cynnwys eithnen bêr (juniper), angelica, casia, elestr (orris) a chroen lemwn, ond ychwanegir almwn a gwraidd licoris ar gyfer y Pollination Gin.

Y cynhwysion lleol a ddefnyddir yn y Dyfi Original Gin yw dail helyg Mair, deilflagur pinwydd a blodau'r eithin. Mae'r cynhwysion yn y Pollination Gin yn cynnwys criafol, egroes, eirin duon bach, drain gwynion (blodau ac eirin), ysgaw, erwain, helyg Mair, grug, dail mieri, dail bedw, sisli bêr a balm lemon. Yn yr Hibernation Gin – mae gin sylfaen Dyfi yn cael ei ddylanwadu gan y tymor hwyrach, felly mae afalau surion bach, mwyar duon, llus a llugaeron yn cael eu hychwanegu.

Caiff y gin ei wneud mewn dwy ddistyllbair, gyda phroses gyflymu'r gwresogi yn golygu fod y gin yn anweddu o fewn 22 munud. Mae distyllu'n cymryd diwrnod cyfan, gyda gwerth 200 potel o hylif yn cael ei gynhyrchu yn y ddwy ddistyllbair.

Dywedodd adolygiad y Gin Foundry:

*'Pollination Gin is a wonderfully evocative spirit that transports the flora of Wales right into your glass, retaining a huge strength of character even when diluted with tonic water. They've achieved a rather special combination of being true to where they are based as well as adding something new to the category with their fresh take on the spirit. It's whimsical and enchanting, deliberately progressive in its flavour profile and has got us day dreaming of what life must be like in the Dyfi valley. It's a sleeping dragon waiting to be discovered by gin fans and mark our words, we've got a feeling that once they have, many more will be hearing about it'.*

Ynghyd â chyflenwi siopau, bwytai, gwestai a thafarndai lleol, mae Distyllfa Dyfi'n cyflenwi Fortnum and Mason, Selfridges a nifer o werthwyr gwin. Enillodd y cwmni'r Harpers Global Design Trophy 2016 am label eu gwirodydd.

Mae Distyllfa Dyfi ar agor i ymwelwyr yn y ddistyllfa yng Nghorris.

# Astudiaeth Achos Seidr a Pherai – Hallets Real Cider

## Amrywiaethau:

Fredericks,
Dabinett,
Harry Masters Jersey,
Elis Bitter,
Yarlington Mill,
Browns,
Tommy Rodford,
Michelin.

## Lleoliad:

Trecelyn,
Casnewydd
NP11 5AY.

## Arwynebedd:

7 erw a phrynu afalau i mewn.

Sefydlwyd Hallets Real Cider yn 2007 gan y gŵr a'r wraig Andy ac Ann Hallett.

Mae ganddynt saith erw o afalau seidr ar fferm 25 erw Blaengawney, sy'n sefyll ar uchder o 1,000 troedfedd. Mae gweddill y tir yn cael ei osod i ffermwr lleol. Mae tua 80,000-90,000 litr o seidr crefft yn cael ei gynhyrchu â llaw ar y fferm. Ynghyd â'n hafalau eu hunain, mae Hallets yn prynu afalau gan dyfwyr eraill.

Plannwyd y coed cyntaf yn 2010, ond mae twf yn araf ar 1,000 troedfedd. O'r 1,200 coeden a blannwyd, mae 200 yn rhywogaeth Fredericks, afalau cynhenid Cymreig sy'n wych ar gyfer gwneud seidr. Defnyddir saith math arall (gweler isod). Cafwyd y cynhaeaf cyntaf yn 2014.

Mae dull crefft Hallets yn golygu mai dim ond sudd afal ffres a ddefnyddir, heb unrhyw gynhwysion artiffisial. Maent yn eplesu yn defnyddio burum naturiol (yn yr aer) ond weithiai'n ychwanegu straen benodol o furum i reoli'r eplesu. Mae Hallets yn eplesu'r seidr fel mathau unigol ac yn eu cyfuno'n wahanol fathau o seidr, e.e. Sych, Canolig a Melys, a seidr cynhyrchiad arbennig.

Maent hefyd yn aeddfedu seidr Dabinett mewn casgenni derw am flwyddyn, cyn ei gyfuno a sudd y tymor newydd i gynhyrchu seidr dwfn a llyfn y mae Hallets yn enwog amdano.

Mae eu llwyddiant i'w weld trwy nifer o wobrau. Y mwyaf diweddar, yn 2016, oedd ennill Gwobr Bwyd a Ffermio Radio 4 y BBC i gynhyrchwyr diod gorau'r DG. Mae Hallets eisoes yn allforio, ac mae'r wobr ddiweddaraf wedi ennyn diddordeb mawr, fel bod eu marchnadoedd allforio yn cynnwys Sgandinafia, Rwsia, Yr Iseldiroedd, Hong Kong a Canada. Er ei bod yn gymhleth i gwrdd â gofynion allforio i ddechrau, mae'n haws erbyn hyn ar ôl sefydlu'r holl waith papur.

Y nod yw parhau i gynhyrchu gwir seidr crefft fydd yn cael cartref mewn marchnadoedd premiwm yn lleol a thu hwnt.

# Astudiaeth Achos Dŵr Mwynol a Ffynnon – Montgomery Waters

## Brandiau:

Aquavit,
Celtic Spring,
and Aquaroma

Aquaroma a nifer o gwsmeriaid label preifat yn cynnwys:
Spar, Tesco,
The Co-op,
3663,
Superdrug,
IKEA,
Hilton and
Nisa.

## Lleoliad:

Montgomery Water,
Yr Ystog,
Trefaldwyn,
Powys,
SY15 6AR

Mae Montgomery Waters yn arbenigo mewn dŵr mwynol a dŵr ffynnon wedi'i botelu ar gyfer nifer o gwsmeriaid adwerthu a gwasanaeth bwyd.

Wedi'i leoli yn Yr Ystog, canolbarth Cymru, roedd y cwmni gynt yn rhan o gwmni adwerthu Harry Tuffins Ltd o ganolbarth Cymru.

Mae Montgomery Waters yn cael eu dŵr o haenau folcanig wedi torri sy'n cynnig nifer o ddyfrhaenau'n agos at ei gilydd; mae 23 wedi'u canfod hyd yma, gydag 11 yn ffynonellau mwynol. Mae hyn yn gallogi Montgomery Waters i gyflenwi ffynhonnell ddŵr unigryw, gyda'r tarddle cysylltiedig.

Yn 2009 cynhaliodd y cwmni adolygiad strategol o'i waith a phenderfynu fod angen ailasesu'r gadwyn werth er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol gan gwsmeriaid a chynyddu proffidioldeb y busnes. Galluogodd yr adolygiad, a gwerthu'r busnesau adwerthu, fuddsoddi £11m yn y busnes, oedd yn swm sylweddol ar y pryd i gwmni â throsiant o £7m.

Roedd y newidiadau allweddol yn cynnwys symud oddi wrth brynu poteli parod i'w llenwi ar y safle i brynu poteli i'w chwythu a'u llenwi ar y safle. Mae hyn wedi cynyddu capasiti'r cwmni i 17,000 potel yr awr o'i gymharu â 3,000 yr awr ar yr hen linell wydr.

Roedd hefyd yn lleihau costau cludiant (mae 25 potel heb eu chwythu yn cymryd yr un faint o le ag un botel barod).

I leihau'r ôl-troed carbon ymhellach, mae Montgomery Waters wedi gosod paneli solar ffotofoltaidd ar ei safleoedd, lleihau'r pecynnau a milltiroedd ffordd. Mae hyn wedi arbed cyfanswm o 3,000 tunnell o garbon o'r broses gynhyrchu ers 2013.

Mae'r buddsoddiad mawr wedi golygu angen i gynyddu sgiliau ymhlith staff, gan symud oddi wrth swyddi llaw sgil isel i dechnegwyr a pheirianwyr sgil uchel. Mae Montgomery Waters wedi cynyddu eu trosiant i oddeutu £20m, a chyflogi 70 o staff.

Tra bo lefelau prynu yn y DG yn dal dipyn in is na chyfartaledd cyfandir Ewrop, mae heriau yn ymwneud â gordewdra, siwgr ac iechyd yn annog yfed mwy o ddŵr yn golygu fod Montgomery Waters yn obeithiol am y dyfodol ac yn buddsoddi i sicrhau fod gan y cwmni'r cynnyrch, seilwaith a'r sgiliau i ateb galw cynyddol.

# Astudiaeth Achos Diodydd Meddal – Radnor Hills

RADNOR HILLS

## Brandiau:

Radnor Hills,
Heartsease,
Aquasplash,
Fruella,
Radnor Fruits and Fizz, PAS Pro

## Lleoliad:

Tref-y-clawdd,
Knighton,
LD7 1LU

Sefydlwyd Radnor Hills 25 mlynedd yn ôl gan William Watkins, wrth ddychwelyd o'r brifysgol a cheisio arallgyfeirio ar fferm y teulu. Gan gyflenwi cwpanau o ddŵr i'r diwydiant hedfan i ddechrau, mae'r cwmni wedi ehangu i gynhyrchu amrywiaeth o gynnyrch dŵr mwynol a diodydd meddal i nifer o farchnadoedd.

Gyda throsiant o £38m ac yn cyflogi dros gant o staff, mae Radnor Hills bellach yn gwmni sy'n ffynnu yng nghalon cefn gwlad Cymru.

Gyda 12 twll dŵr, cynhyrchodd Radnor Hills tua 230m poteli ddŵr yn 2016, ond mae wedi ehangu ei gapasiti i allu cynhyrchu 400m potel. Gyda'r cwbl yn digwydd ar y safle, mae'r cwmni'n chwythu ei boteli ei hun, yn ogystal â chynhyrchu diodydd mewn pecynnau tetra newydd. Mae'r cwmni'n pwmpio dŵr o'r tyllau dŵr, llenwi, labelu a dosbarthu'r poteli ledled y wlad. Mae Radnor Hills yn gwneud eu surop ar y safle, gan sicrhau ansawdd ar bob cam.

Mae'r cynnyrch allweddol yn cynnwys Dŵr Mwynol Llonydd a Phefriog Radnor Hills; Dŵr â Blas Aquasplash; Presse Premiwm Heartsease Farm; diodydd llonydd a phefriog addas i ysgolion yn cynnwys Radnor Fruits a Radnor Fizz a sudd ffrwythau a diodydd ffrwythau wedi'u cyfuno Fruella. Mae'r cwmni hefyd yn cynhyrchu diodydd i cwmniau label preifat.

Mae Radnor Hills yn arwain y farchnad ym Mhrydain ar ddiodydd meddal addas i ysgolion, gan gynhyrchu 40m uned i'r farchnad hon bob blwyddyn. Mae gallu addasu'r cynnyrch i wahanol ofynion y Byrddau Iechyd wedi bod yn allweddol i lwyddiant yn y farchnad honno.